

# Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaffi Beca dydd Mawrth 31 Mai 2022

**Yn bresennol:** Anthony Jenner (Cadeirydd), Russel Davies, Vivian Williams, Tudur Lewis, Geraint James, Anthony Eynon, Janice Morgan (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Dennis Jones, Cyng Dorian Phillips, Gareth Griffiths

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd newydd Mr Anthony Jenner. Croesawodd y Cadeirydd JM i'r cyfarfod a diolchodd iddi am gymryd rôl Clerc oddi wrth AP.

1. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2022 fel y'u dosbarthwyd i'r aelodau ar gynnig VW ac eiliwyd gan TL.

Materion yn codi o 29/3/22:

Cyflwr wynebaw ffyrdd – roedd DP wedi anfon diweddariad drwy e-bost: Mae DP wedi gofyn am roi wyneb newydd ar y ffyrdd canlynol:

- darn o briffordd yn Efailwen
- o'r gyffordd i'r ysgol yn Efailwen
- Cilowen Uchaf i Login
- Felin Gwrt / Ffynnonwen, Login drwodd i ben y bryn yn Llanglydwen.
- Eglwys Llanglydwen i Bengawse, Hebron.

Efallai na fydd y cyfan yn cael ei wneud er wedi addo gwneud y 2 yn Efailwen cyn bo hir.

2. Penodi Is-Gadeirydd
  - JM i ddod o hyd i rota'r Cadeirydd o'r cofnodion a chadarnhau'r aelod nesaf ar gyfer Is-Gadeirydd yn y cyfarfod nesaf
3. Gohebiaeth
  - cefnogwyd llythyr apêl oddi wrth Ganolfan Gymunedol Ffynnonwen gyda rhodd o £600 a gynigiwyd gan TE ac eiliwyd gan RD
  - cefnogwyd llythyr apêl gan Gymdeithas yr Hoelion Wyth yn unfrydol i blac gwerth £425 i anrhydeddu'r gwaith cymunedol a wnaed gan Mr a Mrs Roy a Rhoswen Llewelyn.

Nodwyd gohebiaeth arall

- Llythyr cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad – cais am ddata a dderbyniwyd ynghylch unrhyw achosion o ddatgan diddordeb a hyfforddiant a gyflawnwyd. Bydd JM yn cadarnhau gydag AP ac yn dychwelyd erbyn 1/7/22
- Nodwyd e-bost Chris Maynard – roedd AP wedi ymateb i'r cais am wybodaeth ynglŷn â'r cyngor cymuned
- Hysbysiad hawlio TAW – AP wedi'i anfon ar 11/4/22
- Hyfforddiant sefydlu i gynghorwyr newydd a hyfforddiant cod ymddygiad ym mis Mehefin/Gorffennaf os hoffai aelodau fynychu
- Gohebiaeth arall a nodwyd: Ramblers Cymru; Cymru Wledig, Plannu ar gyfer


Peillwyr, Creu Coetiroedd, arolwg bwyd CSC, Age Friendly Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus

4. Mandad/Sieciau wedi'u llofnodi.
  - £600 i Ganolfan Gymunedol Ffynnonwen
  - £425 i Gymdeithas Genedlaethol Hoelion Wyth
  - £25 i Gaffi Beca i logi lleoliad
  - £1083.33 Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer costau goleuo troedffordd Ebrill 2021 – Mawrth 2022
  - Mandad i'w llofnodi ar gyfer llofnodwyr newydd
- 
5. Archwiliwr Mewnol
  - Rosemarie Davies i barhau fel archwiliwr mewnol
6. Cynllunio
  - Anfonwyd e-bost cynllunio ynghylch Y Plas Hebron at yr aelodau
7. Unrhyw Fater Arall
  - Hoffai DP ddiolch i bawb a'i cefnogodd yn yr etholiadau cyngor cymuned diweddar
  - Gydag ymddiswyddiad Leslie Owen, AJ i gysylltu ag un person â diddordeb mewn bod yn aelod o'r cyngor cymuned
  - Arwyddion: JM i fynd ar drywydd arwydd Meini Gwyr gyda Cadw a hefyd darganfod pa wybodaeth oedd ar arwydd lle parcio Ynys Fach
8. Dyddiad y cyfarfod nesaf
  - Dydd Mawrth 26 Gorffennaf 2022 am 7.30pm. Cytunwyd y byddai pob cyfarfod yn y dyfodol yn cael ei gynnal yng Nghaffi Beca am dâl o £25 y cyfarfod.

*Terfynwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd*

Arwyddwyd:

Cadeirydd:



.....

Dyddiad: 26/07/2022